

Durvalumab ar gyfer trin canser yr ysgyfaint na ellir ei dynnu'n llwyr sy'n ddatblygedig yn lleol lle nad yw'r celloedd yn fach ar ôl cemoymbelydredd sy'n seiliedig ar blatinwm

1 Mai 2019

Mae Durvalumab (Imfinzi) ar gael drwy'r [Gronfa Cyffuriau Canser](#). Mae'n driniaeth bosibl, a gymerir ar ei phen ei hun, ar gyfer canser yr ysgyfaint na ellir ei dynnu'n llwyr sy'n ddatblygedig yn lleol lle nad yw'r celloedd yn fach mewn oedolion o dan yr amgylchiadau canlynol:

- os eu tiwmor yn dangos PD-L1 ar o leiaf 1% o gellod tiwmor ac
- nad yw eu clefyd wedi gwaethygu ar ôl cael cemoymbelydredd sy'n seiliedig ar blatinwm cydamserol (cemotherapi ac ymbelydredd ar yr un pryd).

Mae rhagor o dystiolaeth ar durvalumab yn cael ei chasglu, hyd at fis Medi 2021. Ar ôl hyn, bydd NICE yn penderfynu p'un a fydd yn argymhell y dylid ei ddefnyddio ar y GIG ac yn diweddarau'r canllawiau. Bydd ar gael drwy'r Gronfa Cyffuriau Canser tan hynny.

Os nad ydych yn gymwys i gael durvalumab, ond eich bod eisoes yn ei gymryd, dylech allu parhau nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ar yr adeg orau i roi'r gorau i'w gymryd.

A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am [wneud penderfyniadau am eich gofal](#).

Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-ffeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

Gall [gwefan y GIG](#) fod yn lle da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- [Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint](#), 020 7688 5555
- [Sefydliad Canser yr Ysgyfaint Roy Castle](#), 0333 323 7200
- [Ymchwil Canser y DU](#), 0808 800 4040
- [Cymorth Canser Macmillan](#), 0808 808 0000

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp [Gwarchod Iechyd](#) lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-3389-1